Y Fonesig Athro Julie Lydon
Cadeirydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Rhif 2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Butetown
Caerdydd
CF10 4BZ
julie.lydon@cter.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Mawrth 2025

Annwyl Athro Fonesig Lydon,

**Cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil: 2025-2026**

Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 rydym yn falch o gadarnhau ein cyllid ar gyfer Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

Darperir y cyllid er mwyn i Medr gyflawni'r swyddogaethau sydd ganddo o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, yn enwedig Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 fel y'i cychwynnwyd. Fe'i darperir hefyd er mwyn cyflawni'r swyddogaethau y mae'n eu harfer ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol â'r hyn a nodir yn y Cytundeb Asiantaeth rhwng Medr a Gweinidogion Cymru, a wnaed o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydym yn disgwyl y bydd Medr yn dechrau cyflawni ei Gynllun Strategol fel y'i cymeradwywyd yn ddiweddar.

Mae cyllideb cymorth grant o **£961,818,000** ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 wedi'i nodi ar gyfer Medr,fel y nodir yn Atodiad 1. Fel yn y flwyddyn ariannol flaenorol,

Fel y nodir yn y llythyr cyllid dangosol, mae Gweinidogion yn dyrannu **£29.213m** yn ychwanegol na'r gyllideb sylfaenol ddiwygiedig i Medr i gefnogi'r canlynol:

- Ariannu cynnydd rhagamcanol mewn addysg bellach a'r chweched dosbarth yn 2025-26.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymorth llesiant ac iechyd meddwl mewn addysg bellach ac addysg uwch ymhellach, er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth gorau posibl i aros mewn addysg.
- Parhad cydraddoldeb cyflog rhwng ysgolion a cholegau, er mwyn cynnal y safonau uchaf ac ansawdd addysgu lle bynnag y mae dysgwyr yn ymgymryd â'u haddysg ôl-16.
- Ehangu rhaglen Prentisiaethau Iau.

Fel yn y flwyddyn ariannol flaenorol ers sefydlu Medr, dylid ystyried elfennau addysg a phrentisiaethau'r cyllid fel elfennau sydd wedi eu neilltuo.

Bydd yr arian yn cael ei fonitro o ran yr hyn a gyflawnir. Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith, dylid darparu rhagolygon amserol a gwybodaeth fonitro i swyddogion, gan roi gwybod yn brydlon am unrhyw orwariant a thanwariant disgwyliedig. Gall Gweinidogion addasu grant y flwyddyn yn unol â hynny, os oes angen, drwy broses y gyllideb atodol.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi ac uwch dîm Medr.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Vikki Howells AS/MS**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni, a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy, and Planning

**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau, a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills, and Social Partnership

**Atodiad 1**

Mae'r gyllideb adnodd a chyfalaf ddangosol a'r setliad cymorth grant wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| **Maes y gyllideb** | **Swm** |
|---|---:|
| Addysg drydyddol - cyffredinol | £804,081,000 |
| Eitemau wedi'u neilltuo: | |
| Prentisiaethau iau 14-16 | £600,000 |
| Hyrwyddwyr menter mewn addysg bellach | £360,000 |
| | |
| Prentisiaethau | £143,277,000 |
| | |
| **Cyllideb refeniw net:** | **£948,318,000** |
| | |
| Swm heb fod yn arian parod (dibrisiant) | £437,000 |
| **Cyllideb adnoddau** | **£948,755,000** |
| | |
| Cyfalaf addysg uwch | £10,000,000 |
| Cyfalaf digidol addysg bellach | £3,000,000 |
| Cyfalaf gweithredu Medr | £500,000 |
| **Cyllideb gyfalaf** | **£13,500,000** |
| | |
| **Cyfanswm y gyllideb adnodd a chyfalaf:** | **£962,255,000** |
| *Addasiadau Cymorth Grant:* | |
| *Minws swm heb fod yn arian parod (dibrisiant)* | £437,000 |
| | |
| **Cyfanswm y Cymorth Grant (Arian Parod)** | **£961,818,000** |

Rhagwelir y bydd cyllid refeniw ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol, a bydd yn cael ei neilltuo'n briodol: Bydd cadarnhad o'r cyllid hwn yn cael ei gyhoeddi mewn llythyrau ariannu.

- Gweithredu Deddf ADY mewn addysg bellach
- Addysg feddygol
- Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch (yn amodol ar gyllid DSIT)

**<u>Atodiad 2</u>**

**Ffynonellau Incwm Eraill**
O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adrodd am bob ffynhonnell incwm arall ar gyfer pob corff o fewn ffin llywodraeth ganolog, a rheoli hynny o fewn terfyn rheolaeth cwmpas incwm cyffredinol y cytunwyd arno gan Senedd Cymru. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i aros o fewn y terfyn rheolaeth hwn, yr incwm y caiff Medr ei gadw o ffynonellau eraill i gyllido gweithgarwch yn ystod y flwyddyn at ddibenion adnoddau refeniw yw £50,000. Nid y terfyn goddefiant ar gyfer arian parod a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn yw'r swm hwn. Rhowch wybod i'ch tîm Partneriaeth os ydych yn disgwyl y bydd yr incwm hwn yn newid yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Amodau a Thelerau'r Cyllid**
Mae'r datganiad o flaenoriaethau a'r ddogfen fframwaith a roddwyd i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn nodi amrywiol ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r llywodraeth y mae angen i waith ymchwil y Comisiwn Addysg Drydyddol gydymffurfio â nhw, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

Pennaeth eich tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru yw Claire Rowlands a'ch cyswllt arferol yn y tîm yw Craig Greenland: craig.greenland@llyw.cymru.

Trefnir cyfarfod â'ch tîm partneriaeth i gytuno ar drefniadau goruchwylio a monitro priodol.

Dylid hawlio cyllid yn y modd y cytunwyd arno gyda'r tîm cyllido addysg drydyddol a dylid cyflwyno ceisiadau am gyllid i David Morris: david.morris007@llyw.cymru